**Cyngor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 12.45 ddydd Iau 30 Medi 2021 yn Neuadd Vivian, Canolfan Dylan Thomas, Abertawe

Yn bresennol:

Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Tony Ball
Pam Berry
Tania Davies
Margaret Evans
Eifion Griffiths
Yr Athro Medwin Hughes
Dr Conny Matera Rogers
Rowland Jones
Vanessa Liverpool
Liam Powell
Victoria Provis
Geraint Roberts
Dr Liz Siberry
Maria Stedman
Dr Kerry Tudor

Hefyd yn bresennol:
Justin Albert
Siwan Davies
Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

Aelodau Cyngor Prifysgol Cymru yn bresennol fel sylwedyddion:
Dr Stuart Robb
Nigel Roberts
Deris Williams

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 21.53<br>Ymddiheuriadau am absenoldeb | DERBYNIODD y Cyngor ymddiheuriadau am absenoldeb gan Andrew Curl, Arwel Ellis Owen, Mathew Peake ac Andrew Cornish. | |
| 21.54<br>Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cyngor y Datganiadau o fuddiannau fel y'i nodir yn adroddiad y Clerc (CO373). | |
| 21.55<br>Adroddiad Bwrdd Coleg Sir Gâr | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad Bwrdd Coleg Sir Gâr (CO374).<br><br>Adroddodd Cadeirydd Bwrdd CSG ar ymddeoliad arfaethedig Ysgrifennydd Cwmni CSG a'r trefniadau interim sydd i'w gwneud. | |
| 21.56<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021 | CYMERADWYODD y Cyngor Gofnodion Anghyfyngedig y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021 (CO375). | |
| 21.57<br>Cofnodion Cyfyngedig y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021 | CYMERADWYODD y Cyngor Gofnodion Cyfyngedig y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021 (CO375). | |
| 21.58<br>Siarter Myfyrwyr | CYMERADWYODD y Cyngor Siarter Myfyrwyr 2021/22 (CO376).<br><br>Nododd Llywyddion Undeb y Myfyrwyr eu buddiannau yn y mater hwn. | |
| 21.59<br>Cytundeb Perthynas Undeb y Myfyrwyr | CYMERADWYODD y Cyngor y Cytundeb Perthynas rhwng Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol 2021/22 (CO377).<br><br>Nododd Llywyddion Undeb y Myfyrwyr eu buddiannau yn y mater hwn. | |
| 21.60<br>Athrawon Ymarfer | YSTYRIODD y Cyngor y saith enwebiad am Athrawon Ymarfer a oedd wedi'u cyflwyno i'r Senedd i'w cymeradwyo.<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor y canlynol yn Athrawon Ymarfer:<br>a) Yr Athro David Kirby<br>b) Mr Richard Dunne<br>c) Dr Daryl Powell<br>d) Yr Athro Meena Upadhyaya<br>e) Mr Simon Wright<br>f) Dr Sneh Khemka | |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | g) Mr Dominic McVey | |
| 21.61<br>Cynllun Dirprwyo | CYMERADWYODD y Cyngor Gynllun Dirprwyo 2021/22 (CO379). | |
| 21. 62<br>Adroddiad Cydymffurfiaeth y CMA | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad ar gydymffurfiaeth y Brifysgol â rhwymedigaethau CMA a baratowyd gan y Clerc (CO380).<br><br>Hysbysodd yr Is-Ganghellor yr aelodau fod, ers i'r adroddiad gael ei baratoi, dyfarniad a ryddhawyd gan SDA mewn ymateb i gŵyn grŵp wedi gwneud sylw ynghylch cyfarwyddyd y CMA yng nghyd-destun y Brifysgol yn cyfathrebu newidiadau rhaglenni i fyfyrwyr. Roedd y Brifysgol yn y broses o baratoi'i hymateb ffurfiol. Mae'n bosibl bod goblygiadau ariannol ynghlwm â'r dyfarniad a byddai'n trafod y mater ymhellach gyda Chadeiryddion y Cyngor a'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad pan fyddai'r canlyniad terfynol yn hysbys. Byddai adroddiad hefyd yn cael ei ddarparu ar gyfer y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu. | |
| 21.63<br>Telerau ac amodau cyllid CCAUC | DERBYNIODD y CYNGOR Delerau ac Amodau Cyllid CCAUC 2021/22, a oedd yn cymryd lle'r Memorandwm o Sicrwydd ac Atebolrwydd (CO381).<br><br>Adroddodd y Clerc y byddai trefniadau'r Brifysgol yn cael eu mapio yn erbyn y Telerau ac Amodau Cyllid yn rhan o adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg, a ddylai gael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Tachwedd 2021. | |
| 21.64<br>Datganiadau o fuddiannau | Nododd Llywyddion Undeb y Myfyrwyr eu buddiannau yn eitemau 21.58 a 21.59.<br><br>Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| 21.65<br>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf | Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar ddydd Iau 25 Tachwedd 2021. | |

Terfynwyd y cyfarfod am 1.15